LC175

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cydgyfnerthu ac yn disodli Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) 1995 mewn perthynas â Chymru ac yn darparu ar gyfer gorfodi a gweithredu rhwymedigaethau Cymunedol perthnasol.

Gwnaed Rheoliadau i'r un perwyl yn Lloegr ym 1999 (OS 1999/2457 yn dod i rym ar 1 Hydref 1999).

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae Rheoliad 2(1) yn cynnwys diffiniad o "awdurdod bwyd" nad yw'n berthnasol o gwbl yng Nghymru.

Mae cynnwys y diffiniad hwn felly yn ddrafftio diffygiol.

Credir bod modd cywiro hyn drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau o dan Reol Sefydlog 22.13. O dan yr amgylchiadau hyn, cyhyd â bod Memorandwm Cywiriadau yn cael ei gyflwyno'n briodol, mae'r Pwyllgor yn fodlon cyflwyno adroddiad nad oes unrhyw bwyntiau yn codi y mae angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

Mae'r mân bwyntiau teipograffyddol canlynol wedi'u nodi. Dylid cywiro'r rhain naill ai trwy eu cynnwys yn y Memorandwm Cywiriadau neu wrth argraffu.

**Rheoliad 1**

Mae angen atalnod llawn ar ôl 1(1) yn y testun Cymraeg.

**Rheoliad 7(b)(ii)**

Dylai 'diwygio' bod yn 'ddiwygio' yn y testun Cymraeg.

**Troednodyn (b)**

Dylai 'I Gynulliad' fod yn 'i Gynulliad' yn y testun Cymraeg.

**Mick Bates A.M.**

Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfau

27 Chwefror 2001